# Dinas a Sir Abertawe

# Adolygiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth 2015/16 (Y flwyddyn sy'n dod i ben ym mis Mawrth 2016)

# Adroddiad - Fersiwn Gryno

Os oes angen yr wybodaeth hon arnoch mewn fformat gwahanol, e-bostiwch mynediadiwasanaethau@abertawe.gov.uk, ffoniwch 01792 636731 neu ysgrifennwch at:
Y Swyddog Cydraddoldeb, Ystafell Gaerloyw, Neuadd y Ddinas, Abertawe SA1 4PE.

**Cyflwyniad**
Dyma grynodeb o Adroddiad Adolygu Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Dinas a Sir Abertawe ar gyfer 2015-16. Dyma'n pumed adolygiad yn unol â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus ac mae'n adlewyrchu'r rheoliadau adrodd newydd ar gyfer Cymru, a gyflwynwyd yn 2011. Gallwch ddarllen yr adroddiad adolygu llawn yn http://www.abertawe.gov.uk/cynlluncydarddoldebstrategol.

**Adolygu'r Amcanion Cydraddoldeb**
Rydym wedi adolygu cynnydd yn erbyn ein holl Amcanion Cydraddoldeb (sydd wedi'u cynnwys yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS) http://www.abertawe.gov.uk/cynlluncydraddoldebstrategol) ym mis Mai 2016 ac mae'n rhoi'r wybodaeth fanwl ddiweddaraf yn yr adroddiad adolygu llawn. Dyma'r wybodaeth olaf ar gyfer ein hamcanion ar gyfer 2012-2016 gan ein bod bellach wedi mabwysiadu CCS newydd ar gyfer 2016-2020.

**Gwybodaeth am Gydraddoldeb**
Rydym yn parhau i ddefnyddio gwybodaeth am gydraddoldeb i lywio ein gwaith, e.e. mewn Asesiadau Effaith Cydraddoldeb, arolygon penodol a gwaith asesu anghenion.

**Gwybodaeth am Gyflogaeth a Hyfforddiant**
Mae'r wybodaeth bresennol am y gweithlu i'w chael yn yr adroddiad adolygu llawn.

**Gwybodaeth Ychwanegol**
Mae'r adran hon yn rhoi manylion cryno am ein gwaith arall (sy'n berthnasol i ofynion y Ddyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus) yn ystod 2015-16.

Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Wasanaethau Corfforaethol (PCC) – Mae'r PCC hwn yn disodli'r PCC Cynnwys a Chynhwysiad yn 2015. Sefydlwyd PCC Ataliaeth a Diwygio Gofal Cymdeithasol hefyd, ac mae hwn hefyd yn edrych ar faterion cydraddoldeb. Mae'r PCC yn cynnwys cynghorwyr ac yn cynorthwyo'r Aelod Cabinet perthnasol gyda materion sy'n ymwneud ag ymrwymiadau polisi'r cyngor.

Aelodau Hyrwyddo Cydraddoldeb - Mae'r rhain yn sicrhau bod y mater neu'r grŵp y maent yn ei hyrwyddo yn cael ei ystyried wrth lunio polisïau a phenderfyniadau'r cyngor. Mae ein Gweinyddiaeth wedi penodi nifer o Aelodau Hyrwyddo Etholedig sy'n cynrychioli holl nodweddion gwarchodedig y Ddeddf Cydraddoldeb (yn ogystal â themâu ehangach megis iechyd a lles, gofalwyr a cham-drin yn y cartref).

Asesiadau Effaith Cydraddoldeb - Rydym yn parhau i ddefnyddio ein proses AEC ehangedig, sy'n cynnwys Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP), gofalwyr, cydlyniant cymunedol, tlodi, eithrio cymdeithasol a'r Gymraeg. Rydym yn parhau i gyhoeddi'r holl adroddiadau AEC yn www.abertawe.gov.uk/aec yn ogystal â'n gwaith AEC ar y gyllideb. Mae ein protocol Cydraddoldeb a Chynnwys yn parhau i sicrhau y caiff AEC eu holrhain a'u monitro trwy broses adrodd a phenderfynu'r cyngor.

Ymgynghori a Chynnwys - Rydym wedi parhau i ddatblygu ein perthynas â grwpiau cymunedol lleol drwy e.e. Fforwm BME (Lleiafrifoedd Ethnig a Du) a'r Fforwm LGBT (Lesbiaid, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol). Cynhelir y ddau mewn partneriaeth â Heddlu De Cymru. Rydym hefyd yn hwyluso'r Grŵp Cydgysylltu Anableddau.

Troseddau Casineb - Mae gan Gynllun Cyflwyno Cenedlaethol Cydlyniant Cymunedol 2014-16 ganlyniad penodol ar droseddau casineb. I fodloni'r amcan hwn, mae'r cyngor wedi datblygu Cynllun Gweithredu ar Droseddau Casineb lleol gyda phartneriaid allweddol.

Cydlyniant Cymunedol - Mae Abertawe'n datblygu Cynllun Cyflwyno Cydlyniant Cymunedol lleol newydd ar gyfer 2016-17 i ddangos ein cyfraniad at gyflwyno'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol.

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) - Ers mis Medi 2013, pan oeddem yr awdurdod lleol cyntaf i fabwysiadu dyletswydd 'sylw dyladwy' at hawliau plant, rydym wedi datblygu Cynllun Hawliau Plant a Phobl Ifanc. Mae Cynllun Gweithredu CCUHP 2015-16 wedi'i ddatblygu sy'n seiliedig ar flaenoriaethau a nodwyd yn glir ar gyfer y flwyddyn ac sy'n cwmpasu ymagwedd cyngor cyfan at Hawliau Plant.

Addysg ac Ysgolion - Mae ein partner gwella ysgolion rhanbarthol, ERW, yn parhau i weithio gyda Stonewall i gynnal digwyddiadau Hyfforddi'r Hyfforddwyr ar gyfer ysgolion. Datblygwyd offeryn a'i lansio er mwyn i ysgolion gofnodi bwlio ac aflonyddu sy'n seiliedig ar hunaniaeth. Mae ein gwaith gyda Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth yn parhau.

Tlodi - Mae trechu tlodi'n parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i'r cyngor gyda'r Strategaeth Tlodi'n cael ei rhoi ar waith drwy'r themâu allweddol. Mae dros 40% o'r camau gweithredu yn y cynllun gweithredu ar gyfer trechu tlodi wedi dechrau gyda llawer ohonynt yn cael eu datblygu'n barhaus ac mae rhai ohonynt wedi'u cyflawni.

Diwygio Lles - Yn dilyn y gwaith blaenorol i liniaru effaith negyddol gweithgareddau presennol Diwygio Lles, mae gweithgareddau presennol wedi cynnwys cynllun gweithredu i sicrhau ein bod yn barod ar gyfer Credyd Cynhwysol a chefnogaeth briodol i hawlwyr.

Cam-drin yn y Cartref - Mae Siop dan yr Unto Cam-drin yn y Cartref yn parhau i fod yn allweddol ar gyfer cyflwyno partneriaeth aml-asiantaeth y gwasanaethau Cam-drin yn y Cartref. Yn ystod y flwyddyn gyntaf ers ei hagor (2015-16), rydym wedi derbyn dros 5,000 o ymweliadau i ddefnyddio'r amrywiaeth o wasanaethau sydd ar gael. Mae gwaith strategol wedi cynnwys edrych ar effaith bosib y dyletswyddau sy'n cael eu cynnwys yn Neddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin yn y Cartref a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015. Mae cynyddu ymwybyddiaeth a'r agenda ataliol yn parhau i fod yn ffocws.

Hyfforddiant - Mae rhai o'r gweithgareddau hyfforddiant y mae aelodau a swyddogion wedi ymgymryd â nhw'n cynnwys cynyddu ymwybyddiaeth o wrthgaethwasiaeth/masnachu pobl, troseddau casineb a theithwyr sipsiwn.

Fersiwn Hawdd ei Darllen - Byddwn yn cyhoeddi ein hadolygiad blynyddol mewn fformat hawdd ei ddarllen eto eleni.

Gwasanaeth Cyfieithu a Dehongli Cymru (WITS) - Mae gennym ymagwedd gydlynol at yr holl waith cyfieithu a dehongli.  Yn fuan, bydd gennym wasanaeth negeseuon testun i breswylwyr.

Cronfa Newid - Cefnogwyd 16 o sefydliadau gwirfoddol bach a mawr yn ariannol yn ystod 2015-16 drwy grantiau i gyflwyno gwasanaethau a phrosiectau ar draws Abertawe.

Ariannu Plant a Phobl Ifanc LGBT - Roedd arian grant ar gael o fis Ebrill 2013 am hyd at flwyddyn i ddarparu gwasanaeth cefnogi peilot i bobl ifanc LGBT 13-25 oed. Mae'r cynllun peilot hwn wedi parhau yn 2015/16.

Gweithio gyda phobl hŷn – Mae gwaith eleni wedi cynnwys datblygu Bwrdd Gwasanaeth Lleol Abertawe a Chynllun Gweithredu Heneiddio'n Dda Bwrdd Dinas Iach a chynnal digwyddiad i nodi Diwrnod Pobl Hŷn y DU.

***Sylwadau Cloi***

Mae'r adroddiad blynyddol hwn wedi ein galluogi i asesu ein cynnydd yn ystod blwyddyn olaf ein CCS cyntaf.  Gwneir cynnydd o hyd yn erbyn yr Amcanion Cydraddoldeb ac rydym yn gadarnhaol iawn am swm yr wybodaeth ychwanegol sydd gennym i adrodd arni, ymhell y tu hwnt i'n Hamcanion Cydraddoldeb.  Mae hyn yn dangos ein hymrwymiad parhaus i'r agenda gydraddoldeb a'r cynnydd ychwanegol sy'n cael ei wneud.

Wrth i ni gau cylch y CCS 4 blynedd hwn, edrychwn ymlaen at ein Hamcanion Cydraddoldeb newydd ar gyfer 2016-2020, lle bydd ein gwaith yn parhau gyda rhai o'n hamcanion yn parhau ac eraill ond yn dechrau.